Down to Earth

CREATING A BETTER WORLD TOGETHER

Pwy ydym ni?

Rydym ni'n credu y gallwn ni greu byd gwell - un sy'n dda i bobl ac yn dda i'r blaned. Rydym ni'n credu mewn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a mynd i'r afael â heriau cynaliadwyedd - ar yr un pryd - trwy ffordd gynhwysol newydd o weithio. Rydym ni'n gwneud hyn drwy gefnogi pobl sy'n aml ar ymylon cymdeithas - gan gredu mewn pobl a chreu cyfleoedd i adeiladu byd gwell.

downtoearthproject.org.uk
01792 232 439
@DTEProject

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

Rydym ni'n chwilio am Reolwr Prosiect Adeiladu Cynaliadwy

Cyflog: £45,000 - £50,000 ynghyd â Cherbyd Trydan (BIK)
Oriau yr wythnos: 37.5
Adrodd i: Pennaeth Prosiectau a Gweithrediadau

Ymunwch â'r tîm!

Rydym ni'n chwilio am Reolwr Prosiect Adeiladu Cynaliadwy talentog ac ymroddedig i gefnogi ein gweledigaeth wrth i ni barhau i dyfu yn ein heffaith gadarnhaol ar gymunedau a maint ein gweithredu ar gyfer ein grŵp o fentrau cymdeithasol arobryn.

Am beth rydym ni'n chwilio?

Rydym ni angen unigolyn sy'n gallu **rheoli cymhlethdodau contractau adeiladu masnachol wrth integreiddio ein pwynt gwerthu unigryw sef hwyluso rhaglenni gofal iechyd ac addysg drwy ein rhaglenni adeiladu cynaliadwy gyda'r gymuned.**

Nid busnes fel arfer

Yn bendant, nid ydym yn "fusnes fel arfer" – rydym ni angen rhywun i ymuno â'n tîm **sy'n rhannu ein gwerthoedd o greu byd gwell yn ogystal â chroesawu ffyrdd newydd o reoli prosiectau a ariennir gan grantiau a chontractau masnachol.** Fel grŵp o fentrau cymdeithasol, rydym ni'n gweithredu ar fodel dosbarthu dielw ond yn ymdrechu i wneud elw i hyrwyddo ein heffaith. Mae hwn yn gyfnod cyffrous i Down to Earth a bydd y sefyllfa'n apelio at rywun sy'n agored i **feddwl yn wahanol.** Wedi dweud hynny, mae angen i ni sicrhau bod ein ffordd o weithio yn drylwyr i ddiwallu anghenion Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, ein cyfranogwyr, cyllidwyr a chleientiaid ac i ddangos hyfywedd ariannol ein dull.

Oriau gwaith a lleoliad

Dydd Llun i ddydd Gwener, 37.5 awr yr wythnos. Yr oriau gwaith arferol yw rhwng 8:30am a 4.30pm ar y safle - wedi ei lleoli ar safleoedd prosiectau ar draws De Cymru i ddechrau, ac yna canolbarth Cymru a De-orllewin Lloegr wrth i ni dyfu.

Ystod cyflog

£45,000 i £50,000 (FTE) yn amodol ar brofiad ynghyd â Cherbyd Trydan. Yn ogystal â'r cyfraniad pensiwn arferol, rydym ni'n cynnig hyfforddiant helaeth a datblygu tîm, yn ogystal â mynediad i'n safleoedd trawiadol ar gyfer digwyddiadau personol. Rydym ni'n cynnig 33 diwrnod o wyliau blynyddol gan gynnwys Gwyliau Banc gyda chroniad blynyddol ychwanegol gyda blynyddoedd o wasanaeth.

Pwrpas a Chwmpas

Byddwch yn sicrhau bod prosiectau adeiladu cynaliadwy yn cael eu cyflwyno i safon uchel, gan ddiwallu a rhagori ar ofynion cleientiaid, gan gynnwys llinell amser, cyllideb, ansawdd canlyniadau, a phrofiad cyfranogwr a'r gymuned. **Byddwch hefyd yn cefnogi amcanion twf strategol,** gan weithio'n agos gyda'r Pennaeth Prosiectau a Gweithrediadau i ddatblygu prosesau a systemau sy'n galluogi Down to Earth i ddatblygu.

Byddwch yn arwain tîm traws-swyddogaethol, sy'n cynnwys hwyluswyr grŵp arbenigol a thîm dylunio ac adeiladu mewnol, i reoli cylch bywyd sawl prosiect

Mae prosiectau nodweddiadol y byddwch chi'n eu rheoli yn amrywio o adeiladu cartrefi rhent cymdeithasol gyda ffoaduriaid, i adeiladu cyfleusterau gofal iechyd mawr gyda grwpiau cleifion y GIG hyd at adeiladu ysgolion gyda disgyblion a staff. Rydym ni ond yn adeiladu gan ddefnyddio deunyddiau naturiol, pren lleol trwy ddull sy'n canolbwyntio ar y person ac ar natur.

Cyfrifoldebau:

Rheoli Prosiect

- **Rheoli cylch oes y prosiect cyfan ar gyfer o leiaf 3 phrosiect adeiladu mawr ar yr un pryd**
- Ymgorffori darpariaeth gofal iechyd ac addysg yn llawn o fewn ein cynlluniau rheoli adeiladu
- Cefnogi timau prosiect i gyflawni ymgysylltiad grwpiau cymunedol effeithiol a diwallu dangosyddion perfformiad allweddol contract / ariannwr
- Dilyn y broses a'r weithdrefn sefydledig ar gyfer cynllunio prosiectau, dod o hyd i adnoddau, recriwtio ac adrodd
- Rheoli cyllidebau prosiectau a pharatoi rhagolygon ariannol manwl, ac adroddiadau a phrisiadau parhaus
- Datblygu dogfennau amcangyfrif a dadansoddi swm contract cadarn ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol
- Cwblhau adroddiadau prosiect ar gyfer cleientiaid, cyllidwyr a staff mewnol

Rheoli Tîm

- **Yn gyfrifol am berfformiad a thwf a datblygiad parhaus y tîm ym mhob prosiect adeiladu**
- Darparu adborth, hyfforddiant a mentora yn ôl yr angen.
- Darparu a gwahodd adborth i, a gan, Aelodau Tîm Prosiect traws-swyddogaethol er mwyn hwyluso meddylfryd twf a chyfleoedd datblygu cydweithredol.
- Rheoli tîm cyflawni'r prosiect o ddydd i ddydd trwy sesiynau briffio tîm, a sgyrsiau blwch offer, gan hyrwyddo diwylliant o Atebolrwydd ac Ymreolaeth

Risg a Chydymffurfiaeth

- **Sicrhau amgylchedd lle nad oes anafiadau drwy gynnal y safonau iechyd, diogelwch ac amgylcheddol uchaf posibl ar draws safleoedd adeiladu**
- Sicrhau bod aelodau'r Tîm Prosiect yn cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau gweithredol
- Sicrhau bod Asesiadau Risg Safle yn cael eu cynnal, eu ffeilio a'u dilyn
- Rheoli gwaith a gosodiadau isgontractwyr
- Cydlynu safonau Llinell Adeiladu "Aur"

Cymorth Prosiect Strategol

- **Gweithio gyda'r Tîm Arweinyddiaeth i gefnogi datblygiad nodau twf Down to Earth sy'n gysylltiedig â chreu fframweithiau rheoli a chyflawni prosiectau y gellir eu hefelychu ar draws y sectorau Tai, Gofal Iechyd ac Addysg**
- Gwerthuso effeithiolrwydd cylch bywyd rheoli prosiect i nodi ffyrdd o arbed amser ac arian a chynyddu effaith
- Cefnogi datblygu ffyrdd o weithio a rheoli adnoddau sy'n ei gwneud hi'n hawdd ailadrodd ein dull gweithredu ar draws cyrhaeddiad daearyddol ehangach tra'n cynnal ein gweledigaeth, pwynt gwerthu unigryw a safonau

Manyleb y Person:

Sgiliau, Gwybodaeth a Phrofiad: hanfodol

- O leiaf 5 mlynedd o reoli prosiectau yn y sector adeiladu
- Profiad o reoli sawl prosiect ar raddfa fawr (cyllideb o £1m+ yr un) ar yr un pryd;
- Profiad o ddatblygu Systemau Rheoli Prosiectau sy'n arwain at gyflenwi o ansawdd uchel ac amserol
- Profiad o brosesau pennu faint o ddeunyddiau sydd eu hangen a chreu bil meintiau
- Rheoli cyllidebau, amcangyfrif a chaffael
- Cynhyrchu llif arian ariannol prosiectau, a rhaglenni adeiladu
- Sgiliau Arwain a Chyfathrebu Tîm
- Gwybodaeth a phrofiad adeiladu cynaliadwy

Sgiliau, Gwybodaeth a Phrofiad: dymunol

- Cyfarwydd ag Agile
- Sgiliau iaith Gymraeg
- Profiad o weithio yn y trydydd sector

Oes gennych chi ddiddordeb?

Ewch i'n gwefan i lawrlwytho ffurflen gais:

www.downtoearthproject.org.uk

Gwnewch gais i: e-bost **jobs@downtoearthproject.org.uk**
Cyflwyniad: ffurflen gais a CV cyfredol
Dyddiad Cau: Erbyn hanner nos dydd Sul 12 Tachwedd 2023
Byddwn yn cyfweld ddydd Mercher 22 Tachwedd ar ein safle Murton yn Abertawe (SA3 3AP).
Dyddiad cychwyn: 8 Ionawr 2024